



YSGOL PONT Y GOF

CROESO:

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Os ydych yn riant i blentyn yn yr ysgol am y tro cyntaf, hoffem eich croesawu fel rhieni, ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio hapus a buddiol yn ystod y blynyddoedd i ddod. Os oes gennych blentyn yn yr ysgol yn barod, 'rydym yn falch o gadw'r cysylltiad â chwi. Mae'r llawlyfr hwn yn cynnig gwybodaeth am yr ysgol, ei nodau, cwricwlwm a gweithgareddau.

Ethos a Gwerthoedd: Mae Ysgol Pont y Gof yn ysgol gynradd wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Ein nod yw creu ysgol hapus ble mae pawb, yn blant ac oedolion, yn gwneud eu gorau bob amser, yn frwdfrydig, yn gofalu am ei gilydd ac yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle a phrofiad i ddysgu ac i gyfoethogi eu bywyd. Mae plant sy'n hapus yn gweithio'n well gan eu bod yn teimlo'n ddiogel. Os cânt barch gan eu rhieni a'u hathrawon, maent yn dangos parch yn ôl ac maent yn fwy awyddus i blesio. Ceisiwn sicrhau ein bod bob amser yn barod i **wrando** ar blant - nid eu clywed yn unig, a byddwn pob amser yn dêg. Nid yw hyn yn syml yn golygu trin pob plentyn yn union yr un fath bob amser. Rhaid trin pob plentyn yn ôl ei anghenion a'i bersonoliaeth unigryw ei hun. Ceisiwn annog plant i fod yn aelodau cyfrifol o'r ysgol a'u cymdeithas leol ac i dyfu'n bersonau sy'n ystyriol o eraill a'u hamgylchedd. Amcanwn i roi'r addysg orau bosib i bob disgybl.

Ceisiwn barchu syniadau pob oedolyn a phlentyn o fewn yr ysgol gan ddatblygu ymhellach yr arfer o gefnogi ein gilydd ym mhob agwedd o weithgareddau'r ysgol.

Mae perthynas agos rhwng y cartref a'r ysgol yn holl bwysig, a gwyddom y cawn bob cyd-weithrediad gennych i sicrhau hyn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau pellach ynglŷn ag unrhyw fater, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol ar unrhyw adeg - mae'r drws bob amser ar agor.

Yn gywir iawn,

Euros Davies (Pennaeth)

YSGOL PONT Y GOF, BOTWNNOG, PWLLHELI, GWYNEDD, LL53 8RA

Ffôn : 01758 730318

Symudol : 07584 613569

E-bost: eurosdavies@gwynedd.gov.uk

PENNAETH

Euros Davies B.A.

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR

Mrs Ruth ab Ieuan

DISGRIFIAD O'R YSGOL

Ysgol Gynradd Sirol (Babanod/Iau) yw'r ysgol hon.

Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol.

Mae Pont y Gof yn Ysgol Eglwysig.

ORIAU DYSGU

Cyfnod Sylfaen: 23.25 awr yr wythnos

C.A.2: 25 awr yr wythnos

SESIWN Y BORE:

9.00 - 12.00 Plant llawn amser

9:00 - 11:00 - Meithrin

SESIWN Y PRYNHAWN:

Derbyn, B1 a B2 - 1.00 - 3.15

B3, B4,B5 a B6 - 1.00 - 3.30

CYFRIFOLDEB AM Y PLANT: 8.50 - 3.40

POLISI DERBYN YR YSGOL

Mae'r ysgol hon yn gweithredu yn unol â pholisi derbyn Awdurdod Addysg Gwynedd,

sef yn rhan amser ym Medi yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed ac yn llawn amser ym

Medi yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed.



DYDDIADAU Y TYMHORAU

Hydref 2015

- **Dechrau:** Dydd Mawrth, 1 Medi
- **Hanner tymor:** Dydd Llun 26 Hydref - ddydd Gwener 30 Hydref
- **Gorffen:** Dydd Mawrth, 22 Rhagfyr

Gwanwyn 2016

- **Dechrau:** Dydd Llun, 4 Ionawr
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 15 Chwefror - ddydd Gwener, 19 Chwefror
- **Gorffen:** Dydd Iau, 24 Mawrth

Haf 2016

- **Dechrau:** Dydd Llun, 11 Ebrill
- **Calan Mai** (Gŵyl banc): Dydd Llun, 2 Mai
- **Hanner tymor:** Dydd Llun, 30 Mai - ddydd Gwener, 3 Mehefin
- **Gorffen:** Dydd Llun, 18 Gorffennaf

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Iau, 1 Medi, 2016 i athrawon, a dydd Gwener, 2 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

STAFF

Mr Euros Davies	Pennaeth / Athro Blwyddyn 6
Mrs Bethan Rhys	Dirprwy / Athrawes Cyfnod Sylfaen (Bl 1 a 2)
Miss Swyn Llewelyn	Athrawes Cyfnod Sylfaen (Bl M a D)
Mrs Elin Parri	Athrawes bl 3 a 4
Mrs Janet Roberts	Athrawes 5
Mrs Brenda Roberts	Athrawes Saesneg (Bl 5 a 6, ADY ac CPA)
Mrs Caren Jones	Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen (M + D)
Mrs Jane Jones	Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen (M + D)
Miss Gwenan Jones	Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen (1 a 2)
Miss Eleri Williams	Cymorthydd 1:1
Miss Rebeca Owen	Cymorthydd ADY a GAD 1:1
Miss Claire Walker	Cymorthydd 1:1
Miss Sioned Manion	Cymorthydd 1:1

STAFF Y GEGIN

Mrs Sharon Glyn	Cogyddes
Mrs Lona Williams	Cynorthwywraig coginio
Mrs Eleanor Jones	Goruchwylwraig
Mrs Mari Davies	Goruchwylwraig

GOFALWR

Mrs Mandy Williams	Gofalwraig
--------------------	------------

DOSBARTHIADAU



BORE


Dosbarth		Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener
Meithrin a Derbyn	Bore	SLI 30	SLI 30	SLI 30	SLI 30	SLI 30
Bl 1 a 2	Bore	BRh 28	BRh 28	BRh 28	BRh 28	BRh 28
Bl 3 a 4	Bore	EP 28	EP 28	EP 28	EP 28	EP 28
Bl 5	Bore	JR 14	JR 14	JR 14	JR 14	JR 14
Bl 6	Bore	ED 21	ED 21	ED 21	ED 21	ED 21

PRYNHAWN


Dosbarth		Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener
Derbyn	Prynhawn	SLI 16	SLI 16	SLI 16	SLI 16	SLI 16
Bl 1 a 2	Prynhawn	BR 28	BR 28	BR 28	BR 28	BR 28
Bl 3 a 4	Prynhawn	JR 28	JR 28	JR 28	JR 28	JR 28
Bl 5 a 6	Prynhawn	ED 35	ED 35	ED 35	ED 35	ED 35

Rhagwelir niferoedd y plant ym Medi 2015 fel a ganlyn:

Blwyddyn	M	D	1	2	3	4	5	6
Nifer Plant	14	16	14	11	18	10	14	21
	55				63			



Y CWRICWLWM




Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1988, mae'r Awdurdod Addysg wedi llunio, ac yn bwriadu adolygu'n rheolaidd, ddatganiad ysgrifenedig o'i bolisi mewn perthynas â'r cwricwlwm seciwlar. Dehonglir gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol yng nghyd-destun athroniaeth a pholisiau presennol yr Awdurdod. Dyfynnir isod ragair ac amcanion cyffredinol y datganiad fel y gwelir hwynt yn nogfen yr Awdurdod Addysg:

Rhagair

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn i dyfu yn bersonoliaeth lawn, i ddatblygu ac ymarfer ei holl ddoniau fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Y mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol:

1. galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial.
2. sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig.
3. rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n newid.



Amcanion Cyffredinol

1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu brwdfrydedd, chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n cyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg gwybodaeth.
3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
4. Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig e.e. rhai eithriadol o

alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.

7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynlluniau cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Bydd y cynlluniau yma yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd y mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gynigir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn â'r amcanion sydd yn y ddogfen.

Yn gyffredinol fe ddysgir trwy gyfrwng themâu yn yr ysgol. Mae gennym gylch o themâu sydd fel rheol yn draws-gwricwlaidd, ond gyda'r pwyslais gan amlaf naill ai'n wyddonol neu'n ddyniaethol.

Mae rhai elfennau o'r cwricwlwm yn cael eu dysgu'n bynciol heb fod â chysylltiad hefo'r thema, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys y cyfan a argymhellir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae Mathemateg yn cael ei ddysgu felly, ond am elfennau mathemategol a all godi yn y thema. Mae rhai elfennau o iaith - Cymraeg a Saesneg, a Gwyddoniaeth hefyd yn cael eu dysgu yn bynciol.

Polisi Iaith

Amcanion Cyffredinol

Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol. Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio'r iaith yn naturiol i wahanol ddibenion. Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd ac hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach. Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog, i'w galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

Amcanion Penodol

Y Cyfnod Sylfaen: Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg i'w alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law. Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y dysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Cyfnod Allweddol 2: Cadarnhau a datblygu Cymraeg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n

rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Caiff hwyr-ddyfodiaid fynychu Uned Iaith bwrpasol yn Nolgellau am dymor. Bydd y Pennaeth a'r staff yn paratoi ac adolygu'n rheolaidd ddogfen sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg yr amlinellir uchod.

Y Cyfnod Sylfaen – Blwyddyn Meithrin, Derbyn, 1 a 2



Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu o dan y saith Maes Dysgu -

1. Datblygiad Personol, Cymdeithasol a Lles
2. Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
3. Datblygiad Mathemategol
4. Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
5. Datblygiad Corfforol
6. Datblygiad Creadigol
7. Dwyieithrwydd ac Aml-ddiwyllynnol*

*Ni fydd yn raid i ysgolion sydd ar hyn o bryd yn datblygu 'Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu' drwy gyfrwng y Gymraeg addysgu'r elfen ddwyieithog o'r Fframwaith.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar ddatblygu'r plant mewn

- sgiliau a dealltwriaeth
- lles personol, cymdeithasol, emosiynol, corfforol a deallusol er mwyn datblygu'r plentyn cyfan
- agweddau cadarnhaol at ddysgu fel y bydd y plant yn mwynhau ac am barhau â'u haddysg am gyfnod hirach
- hunan-barch a hunan hyder i arbrofi, ymchwilio, dysgu pethau newydd a ffurfio perthynas newydd ag eraill
- arsylwi a sgiliau mynegiannol a chreadigol i annog eu datblygiad fel unigolion, gyda ffyrdd gwahanol o ymateb i brofiadau
- gweithgareddau awyr agored er mwyn i'r plant gael profiad ymarferol o ddatrys problemau go iawn mewn agweddau fel mathemateg a gwyddoniaeth, a dysgu am gadwraeth a chynaliadwyedd



Sut bydd y plant yn dysgu?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais mawr ar blant yn dysgu trwy wneud.

Dylai plant ifanc gael mwy o gyfle i ennill profiad ymarferol trwy chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn hytrach na thrwy gwblhau ymarferion mewn llyfrau.

Dylai mathemateg fod yn fwy ymarferol er mwyn i blant weld sut mae problemau'n cael eu datrys a pha mor bwysig yw mathemateg yn eu bywydau bob dydd. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau siarad a gwrando plant, a fydd yn gosod sylfaen gadarn i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu. Dylid rhoi mwy o bwyslais ar sut mae pethau'n gweithio a dod i hyd i ffyrdd gwahanol o ddatrys problemau.

Cyfnod Allweddol 2 - Blwyddyn 3, 4, 5 a 6

Pynciau Craidd:




Cymraeg a Saesneg - Llafaredd/Darllen/Ysgrifennu

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Gwneir cynnydd trwy raglen integredig o lafaredd (siarad a gwrando yn Saesneg), darllen ac ysgrifennu. Cyflwynir profiadau a chyfleoedd i'r dysgwyr sy'n cydblethu gofynion yr adrannau Sgiliau ac Ystod yn y rhaglenni astudio. Byddant yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus, cydlynol, sy'n ennyn diddordeb, gan weithio fel unigolion ac fel aelodau o grŵp. Bydd eu profiadau yn cynnwys cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau drama a chwarae rôl. Byddant yn datblygu i fod yn wrandawyr gweithgar sy'n barod i ymateb mewn ystod eang o sefyllfaoedd. Drwy'r cyfnod allweddol byddant yn profi ystod fwyfwy eang o destunau anodd, er mwynhad ac er gwybodaeth, er mwyn iddynt allu datblygu i fod yn ddarllenwyr rhugl ac effeithiol. Byddant yn ysgrifennwyr cymwys, gan ysgrifennu'n glir ac yn gydlynol mewn amryw o ffurfiau ac at wahanol ddibenion. Byddant yn meithrin mwy o ddealltwriaeth o'r angen i addasu eu llafar a'u hysgrifennu i gydweddu â'r diben a'r gynulleidfa. Byddant yn gweithio'n fwyfwy manwl gywir ac yn dechrau myfyrio a gwerthuso wrth ystyried eu cyraeddiadau eu hunain a chyraeddiadau eraill.

Mathemateg

Sgiliau: Datrys Problemau/Cyfathrebu yn fathemategol/Rhesymu yn fathemategol

Ystod: Rhif/Mesurau ac arian/Siâp, safle a symud/Trin data



Yng Nghyfnod allweddol 2 bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn parhau i ddatblygu agweddau cadarnhaol at fathemateg ac yn ymestyn eu meddwl mathemategol drwy ddatrys problemau mathemategol, cyfathrebu a rhesymu'n fathemategol gan ddefnyddio cyd-destunau ar draws yr ystod gyfan o fathemateg, ar draws y cwricwlwm, ac fel y bo'n gymwys i broblemau o fywyd go iawn. Byddant yn ymestyn eu defnydd o'r system rif, gan symud o gyfri'n ddibynadwy i gyfrifo'n rhugl gyda'r pedwar gweithrediad rhif, gan gynnwys yng nghyd-destun arian, er mwyn datrys problemau rhifiadol. Byddant yn ceisio datrys problem gyda dull pen cyn defnyddio unrhyw ddull arall, ac yn defnyddio dulliau cyfrifo ysgrifenedig sy'n briodol i'w lefel dealltwriaeth. Byddant yn datblygu strategaethau amcangyfrif a'u cymhwyso i wirio cyfrifiadau, rhai ysgrifenedig ac ar gyfrifiannell. Byddant yn archwilio amrywiaeth helaeth o siapiau a'u priodweddau, ac yng nghyd destun mesurau, yn defnyddio ystod o unedau ac offer ymarferol yn fwyfwy manwl gywir. Byddant yn casglu, cynrychioli a dehongli data at amryw o ddibenion. Byddant yn dewis, trafod, esbonio a chyflwyno eu dulliau a'u rhesymu gan ddefnyddio ystod gynyddol o iaith, diagramau a siartiau mathemategol.

Gwyddoniaeth

Sgiliau: Cyfathrebu/Ymholiad - cynllunio, datblygu a myfyrio

Ystod: Cyd-ddibyniaeth organebau/Y ddaear gynaliadwy/Sut mae pethau'n gweithio

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i adeiladu ar y sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylent ddatblygu eu sgiliau trwy'r ystod cyd-ddibyniaeth organebau, y ddaear gynaliadwy a sut mae pethau'n gweithio. Dylid addysgu'r dysgwyr i berthnasu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol i gymwysiadau gwyddoniaeth ym mywyd bob dydd, gan gynnwys materion cyfredol. Dylid eu haddysgu i gydnabod bod modd gwerthuso syniadau gwyddonol trwy gyfrwng gwybodaeth a gasglwyd o arsylwadau a mesuriadau. Dylai'r addysg annog y dysgwyr i reoli eu dysgu eu hunain a datblygu strategaethau dysgu a meddwl sy'n briodol i'w haeddfedrwydd. Dylid eu haddysgu i werthfawrogi safbwyntiau pobl eraill a bod yn ddinasyddion lleol cyfrifol.

Dylai'r gweithgareddau feithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd a bod yn ddiddorol, pleserus, perthnasol a heriol i'r dysgwyr. Dylent gynnig modd i'r dysgwyr gynnig, archwilio a rhannu syniadau, ac estyn, mireinio a chymhwyso eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn sefyllfaoedd newydd. Dylent neilltuo amser ar gyfer meddwl, trafod â chyfoedion a myfyrio.



Pynciau Sylfaenol

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Sgiliau: Darganfod a dadansoddi gwybodaeth/Creu a throsglwyddo gwybodaeth

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylid eu haddysgu i ystyried y math o wybodaeth sydd ei angen arnynt i gefnogi eu tasgau a'u gweithgareddau a sut y gallant ddod o hyd i'r wybodaeth honno; defnyddio ystod gynyddol o offer ac adnoddau TGCh i ddarganfod, prosesu a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol o amrywiaeth o ffynonellau penodol diogel ac addas; datblygu a chyfleu eu syniadau mewn ffyrdd priodol gan ddatblygu ymdeimlad o ddiben a chynulleidfa.



Dylunio a Thechnoleg

Sgiliau: Dylunio/Gwneud - bwyd, defnyddiau hyblyg ac anhyblyg, systemau a rheoli


Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylid eu haddysgu i ddylunio a gwneud cynhyrchion syml trwy gyfuno'u sgiliau dylunio a gwneud â gwybodaeth a dealltwriaeth, a hynny mewn cyd-destunau sy'n cefnogi'u gwaith mewn pynciau eraill ac sy'n helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd gwneud. Dylid sicrhau bod y dysgwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae pobl wedi'i gyflawni a'u bod yn ymwybodol o'r syniadau mawr sydd wedi dylanwadu ar y byd. Dylid eu hannog i fod yn greadigol ac yn arloesol wrth ddylunio a gwneud, a dylid sicrhau ar yr un pryd eu bod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd a'r amgylchedd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Hanes

Sgiliau: Ymwybyddiaeth gronolegol/Gwybodaeth a dealltwriaeth hanesyddol/ Ymholi hanesyddol/Trefnu a chyfatrebu

Ystod: Astudio/Cynnal/ Gofyn ac ateb cwestiynau

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn cael profiadau sy'n gwneud hanes yn ddiddorol, arwyddocaol ac yn rhywbeth i'w fwynhau. Byddant yn datblygu eu chwilfrydedd am y gorffennol, nodweddion gwahanol gyfnodau yn y gorffennol, cyfnodau cynharaf hyd heddiw, a'r ffyrdd y maent yn wahanol i'w gilydd ac i'r presennol. Byddant yn dysgu drwy ymholi am ffyrdd o fyw gwahanol bobl yn y cyfnod hanesyddol hyn, gan dynnu ar ddatblygiadau pwysig am digwyddiadau allweddol a phobl nodedig yn eu hardal, yng Nghymru ac ym Mhrydain. Byddant yn cymryd rhan mewn ymholiadau hanesyddol ysgogol a chlr eu ffocws gan ddefnyddio ystod eang o



ffynonellau, gan gynnwys cynrychiolaethau a dehongliadau o'r gorffennol, a threfnu a chyfleu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amrywiaeth gynyddol o ffyrdd.

Daearyddiaeth

Sgiliau: Lleoli lleoedd, amgylcheddau a phatrymau/Deall lleoedd, amgylcheddau a phrosesau/Gofyn ac ateb cwestiynau

Ystod: Astudio/Ymchwilio/Cyfathrebu

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Bydd daearyddiaeth yn datblygu ac yn ysgogi diddordeb y dysgwyr mewn lleoedd a'r byd o'u cwmpas, ac yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod am leoedd a'r byd o'u cwmpas. Trwy astudio eu cymdogaeth eu hunain yng Nghymru, y byd ehangach, gwahanol amgylcheddau a digwyddiadau yn y newyddion, bydd y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut leoedd ydyn nhw, a sut a pham y byddant yn newid. Trwy weithgareddau ymarferol a gwaith ymchwil eu hunain yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau i gasglu a gwneud synnwyr o wybodaeth, defnyddio mapiau, meddwl yn greadigol a rhannu syniadau trwy drafod. Mae daearyddiaeth yn darparu cyfleoedd i'r dysgwyr ystyried materion pwysig am eu hamgylchedd, a chydabod sut y bydd pobl o bob cwr o'r byd wedi'u cysylltu â'i gilydd. Ceisir eu hannog i ddeall pwysigrwydd cynaliadwyedd, datblygu pryder gwybodus am ansawdd eu hamgylchedd, a chydabod eu bod yn ddinasyddion byd-eang.



Celf a Dylunio

Sgiliau: Deall/Ymchwilio/Gwneud

Ystod: Deall/Ymchwilio/Gwneud

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Byddant yn gwneud hynny drwy ymwneud mewn modd integredig â gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, cynnal ymchwiliadau creadigol, a gwneud eu gwaith eu hunain. Mae celf a dylunio yn ysgogi creadigrwydd a dychymyg, ac mae'n herio'r dysgwyr i lunio barn wybodus a gwneud penderfyniadau ymarferol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau a phrosesau, byddant yn cyfleu eu syniadau a'u teimladau trwy gyfrwng iaith weledol, cyffyrddol a synhwyrdd. Mae archwilio, gwerthfawrogi a mwynhau ym maes celf a dylunio yn cyfoethogi bywydau personol a chyhoeddus y dysgwyr.



Cerddoriaeth

Sgiliau: Perfformio/Cyfansoddi/Gwerthuso

Ystod: Perfformio/Cyfansoddi/Gwerthuso

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Bydd addysg am gerddoriaeth yn galluogi'r dysgwyr i ymwneud â cherddoriaeth a mwynhau creu cerddoriaeth. Trwy gymryd rhan weithredol mewn gwaith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sensitifrwydd i gerddoriaeth a'u dealltwriaeth ohoni. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cerddorol sy'n ymwneud â rheoli, trin a chyflwyno sain. Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y sgiliau hynny'n cynnwys canu, chwarae offerynnau ac ymarfer, creu cerddoriaeth yn fyrfyfyr, cyfansoddi a threfnu cerddoriaeth, gwrando ar gerddoriaeth a'i gwerthuso. Dylai'r dysgwyr wella'u gwaith perfformio, cyfansoddi a gwerthuso trwy ddatblygu a defnyddio'u meddwl a'u sgiliau cyfathrebu. A dylent roi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch.

Addysg Gorfforol


Sgiliau: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles/Gweithgareddau creadigol/Gweithgareddau antur/Gweithgareddau cystadleuol

Ystod: Gweithgareddau iechyd, ffitrwydd a lles/Gweithgareddau creadigol/Gweithgareddau antur/Gweithgareddau cystadleuol

Yng Nghyfnod Allweddol 2, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gawsant yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Bydd addysg gorfforol yn annog y dysgwyr i archwilio a datblygu eu sgiliau corfforol sy'n hanfodol i gymryd rhan mewn amryw o wahanol weithgareddau. Trwy adeiladu ar y sgiliau hynny bydd cyfleoedd i fod yn greadigol ac yn ddychmygus mewn gweithgareddau gymnasteg a dawns. Trwy weithgareddau antur, byddant yn dysgu sut i nofio, bod yn ddiogel a theimlo yn y dŵr, a sut i ddarllen map neu ddilyn llwybrau, fel ei fod yn fwy diogel i ymhellach ac archwilio glan y môr a chefn gwlad. Bydd gweithgareddau cystadleuol yn cynnig cyfle i ddysgu sgiliau gemau a chwarae mewn tîm, yn ogystal â sut i redeg yn gyflymach, neidio'n uwch a thaflu'n bellach. Bydd y dysgwyr yn dechrau deall bod addysg gorfforol yn ymwneud â dysgu sut i deimlo'n iach a pharhau'n ffit tra eu bod yn cael hwyl, a gwybod sut mae'r gwahanol fathau o weithgareddau hyn yn helpu iddynt barhau'n iach ac yn ffit.

Addysg Grefyddol

Sgiliau: Ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol/Archwilio creadodau, dysgeidiaethau ac arferion



crefyddol/Mynegi ymatebion personol

Ystod: Y byd - dechreuad a phwrpas bywyd/ y byd naturiol a phethau byw

Profiad dynol - hunaniaeth ddynol / ystyr a phwrpas bywyd/perthyn/ awdurdod a dylanwad/
perhwasoedd a chyfrifoldeb/taith bywyd

Chwilio am ystyr - anfaterol / ysbrydol/gwybodaeth a phrofiad a'r anfaterol / ysbrydol

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd addysg grefyddol yn meithrin diddordeb a rhyfeddod dysgwyr o'r byd a'r profiad dynol. Mae hyn yn eu hysgogi i ofyn ac ymchwilio cwestiynau dwfn sy'n ymwneud â'u profiadau personol, crefydd a bywyd yn gyffredinol, gan felly adeiladu ar y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Trwy weithgareddau ysgogol ymarferol ac archwilio crefydd yn eu cymdogaeth yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn y byd ehangach, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau ac yn casglu gwybodaeth a fydd yn eu cynorthwyo i feddwl yn greadigol am gwestiynau crefyddol a moesol sylfaenol, a rhannu syniadau trwy drafod. Bydd gwybodaeth am grefydd(au) a chydabod pwysigrwydd crefydd ym mywydau pobl yn gymorth i ddatblygu goddefgarwch a pharch, a dylai feithrin agweddau cyfrifol mewn cymdeithas leol a byd-eang. Trwy gyfranogi'n weithredol bydd y dysgwyr yn archwilio dimensiynau ysbrydol a moesol i'w cynorthwyo wrth iddynt chwilio am ystyr a phwrpas. Bydd y dysgwyr yn mynegi eu teimladau a'u barn eu hunain, adnabod sut y gall eu gweithrediadau effeithio ar eraill, cydnabod bod safbwyntiau pobl eraill yn wahanol i'w safbwynt nhw, a myfyrio ar eu persbectifau eu hunain ar fywyd, a'u haddasu fel y bo'n briodol.

Sgiliau ar draws y Cwricwlwm

Mae 'Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru' anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant i ddysgwyr 3 - 19 oed. Yng Nghyfnodau Allweddol 2 dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Datblygu Meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio**.

Datblygu Cyfathrebu

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**.



Datblygu TGCh

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Datblygu Rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau.**

Dysgu ar draws y cwricwlwm

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen,

Y Cwricwlwm Cymreig 7 – 14 oed

Dylai dysgwyr 7– 14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol, bod yn ddinasyddion gweithgar a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, agweddau a'r gwerthoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd ar lefel lleol a byd-eang, a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y presennol heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.



Bwyd a Ffitrwydd

Mae Cwricwlwm 2008 yn atgyfnerthu safle addysg bwyd yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru'n sylweddol. Bydd sgiliau paratoi bwyd ymarferol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 2.



Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (Addysg Bywyd)

Yn unol â gofynion Deddf Addysg 1986, disgwylir i Gyrff Llywodraethol ysgolion ystyried os dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm seciwlar. Os ydynt o'r farn y dylai addysg rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm, mae gofyn iddynt lunio ac adolygu datganiad ysgrifenedig o'u polisi o safbwynt cynnwys a threfniadaeth. Penderfynodd y



Corff Llywodraethol y dylai Addysg Rhyw fod yn rhan o'r cwricwlwm yn Ysgol Pont y Gof trwy Addysg Bersonol a Chymdeithasol a'r Cwricwlwm Gwyddoniaeth.

Pwrpas ac amcanion Addysg Rhyw yn yr ysgol gynradd yw:

- dysgu am gylch bywyd
- cadw'r plant yn ddiogel trwy eu helpu i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion a phlant eraill
- helpu'r plant i ddod yn ymwybodol o wahanol sefyllfaoedd bywyd gan bwysleisio pwysigrwydd moesol
- helpu'r plant siarad am faterion sy'n ymwneud â'r corff a pherthnasedd heb embaras
- cychwyn paratoi'r plant am y penderfyniadau y byddant yn eu gwneud yn y dyfodol
- dysgu plant i barchu eu hunain ac eraill

Mae gan rieni'r hawl i eithrio eu plant o'r elfennau hynny nad yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2008. Os oes gan riant/gofalwyr bryder, mae croeso i chi ddod i'r ysgol i drafod gyda'r Pennaeth.

Mae croeso i chi ymgynghori â'r Pennaeth os oes gennych unrhyw gwestiynau ar y mater neu os hoffech weld y polisi Addysg Rhyw.

Patrwm yr Addysgu

Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb i'r gofynion hyn bydd trefniant y dosbarth yn hyblyg; gwaith grŵp, unigol, parau a dosbarth cyfan, weithiau darperir gwaith ar sail oedran, neu bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un blwyddyn ysgol yn cyd-weithio ar un dasg. Dysgir y plant fel uned dosbarth fydd dan ofal un athro/athrawes sefydlog.

Cynllunir y cwricwlwm ar sail agweddau gwahanol ar ddysgu gan gynnwys y pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) a di-graidd (Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth, Hanes, Daearyddiaeth, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol ynghyd ag Addysg Grefyddol). Nodir cyfraniad y meysydd hyn mewn dull systematig yng nghofnodion yr athrawon. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir profiadau a gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaethol, mewn unedau penodol a thrwy ddilyn themau penodol.

Sut bydd yr ysgol yn dysgu'r holl bynciau yma i fy mhlentyn?

Yn Ysgol Pont y Gof byddwn yn gweithio ar gylch dwy flynedd o themau yn y Cyfnod Sylfaen a chylch pedair mlynedd yn yr adran Iau. Golyga hyn ein bod yn dewis thema fywiog a gafaelgar ar gyfer pob tymor. Bydd rhai themau a gogwydd mwy gwyddonol nac eraill tra bydd rhai themau a gogwydd mwy daearyddol a hanesyddol.

Wedi dewis y thema ar gyfer y Cyfnod Sylfaen caiff map meddwl a grid GED (Dwi'n Gwybod, Dwi Eisiau Gwybod, Dwi wedi Dysgu) eu creu gyda'r plant. Yna bydd yn rhaid mapio'r sgiliau yn y 7 maes dysgu.

Isod gwelir themau Cyfnod Allweddol 2.

Blwyddyn 3,4,5 a 6

THEMA 1	THEMA2	THEMA3
Ni ein Hunain	O Dan y Don	Tai a Chartrefi
THEMA 4	THEMA 5	THEMA 6
Teithio	Newid	O'n Cwmpas

CYFLE CYFARTAL

Amcan yr ysgol yw sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion o ba bynnag gefndir cymdeithasol y dont, cyfleoedd cyfartal i fechgyn a merched, i blant galluog a phlant llai galluog. Ceisiwn feithrin agwedd gadarnhaol mewn perthynas â chydaddoldeb hiliol, crefydd a rhyw, osgoi cyflyru ac ystrydebau, gan gynnwys mewn perthynas â'r cwricwlwm. Gellir gweld y polisi llawn yn yr ysgol.

PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Weithiau byddwn yn teimlo y byddai o fantais i blentyn dderbyn sylw i oresgyn problemau penodol. Gall hyn fod yn drefniant tymor hir neu dros dro. Fel arfer byddwn yn canolbwyntio ar y sgiliau sylfaenol megis darllen, ysgrifennu, sillafu a mathemateg, gyda'r plentyn yn cael cymorth (gan amlaf mewn grŵp bychan) gan aelod o staff ar ôl trafodaeth hefo'i rieni. Os oes angen, byddwn yn gofyn am gymorth asiantaethau eraill

megis y Seicolegydd Addysg, defnyddio Unedau Dalgylchol yn rhan-amser a.y.y.b.
Weithiau gosodir plentyn ag anghenion dwys ar ddatganiad ar ôl trafod gyda'r rhieni.
Caiff gwaith plant mwy abl a thalentog ei gynllunio'n ofalus i'w hystyngi.

Cydlynnydd Anhgenion Addysgol Arbennig - Mrs Ann Hookes
Llywodraethwr â chyfrifoldeb am Anghenion Addysgol Arbennig - Mrs Ruth ab
Ieuan

Crynodeb o'r Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nod

Cyn belled ag sydd bosibl, gweithiwn i gynnig cyfle teg i bob plentyn gael datblygu yn emosiynol, yn gorfforol, yn feddyliol ac yn addysgol i gael manteisio ar yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig, gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Canllawiau

1. Cyflawni gofynion Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002.
2. Defnyddio Meini Prawf Mynediad Gwynedd ac 'Asesu Da' i gynllunio'r ddarpariaeth orau posibl.
3. Dilyn trefn o gyfnodau:
 - 'Gweithredu gan yr Ysgol' - disgyblion gydag anghenion tymor byr
 - 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' - disgyblion gydag anghenion tymor canolig
 - 3* - disgyblion gydag anghenion tymor hir
 - Datganiad - disgyblion gydag anghenion dwys

Bydd y cyd-gysylltydd yn cysylltu ag arbenigwr o'r tu allan fel bo'r angen. Bydd gan bob plentyn sydd ar un o'r cyfnodau hyn Gynllun Addysg Unigol (CAU).

4. Sicrhau cynnwys y rhieni a'r disgyblion yn y trefniadau asesu ac adolygu anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys y CAU.
5. Cyn belled ag y bo'n bosibl, bydd pob disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau'r ysgol.
6. Gall rhieni sydd a chŵyn gysylltu a'r canlynol yn y lle cyntaf— Y Cydgysylltydd ADY / y Pennaeth / cynrychiolwyr y rhieni ar y Corff Llywodraethu / Llywodraethwr penodedig ADY

Casgliad

Dylid sicrhau fod pob plentyn sydd ag anhawster dysgu yn cael pob chwarae teg i ymgynhyrdd i'w lawn botensial. Drwy wneud hyn bydd y plant gydag anhawster yn cael y gofal sy'n ddyledus iddynt, boed hynny yn gorfforol, yn feddyliol neu un synhwyrol.

Adnabod, Asesu a Darparu Anghenion Dysgu Ychwanegol


1. Yn dymhorol byddwn fel staff yn trafod cynnydd pob plentyn. Os oes pryder yn cael ei fynegi, byddwn yn ystyried rhoi'r disgybl ar gyfnod tymor byr, sef Gweithredu gan yr Ysgol. Os nad yw'r broblem neu'r pryder yn ddigon i roi'r disgybl ar gam pellach, yna byddwn yn ceisio datrys yr anghenion o fewn y dosbarth trwy waith gwahaniaethol. Os bydd y pryder yn parhau neu'n cynyddu, byddwn yn gosod y disgybl ar gam pellach, sef Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy.
2. Mae athrawon yr ysgol yn defnyddio asesu fel rhan naturiol o'u dysgu dyddiol. Mae cynllunio gwersi yn digwydd fel bod gweithgareddau yn cael eu hasesu - weithiau bydd y gweithgareddau yn wahaniaethol o ran eu natur, dro arall yr ymateb i'r un math o dasg sy'n wahaniaethol. Trwy'r dulliau hyn, ac o bryd i'w gilydd, brofion safonedig, fe obeithir bod pob plentyn yn derbyn y sylw haeddiannol, ac yn datblygu i'w llawn botensial, ac y byddwn yn gallu dod yn ymwybodol o unrhyw broblem neu 18ew nei a all godi yn fuan iawn.
3. Mae trefniadau ar gael i adolygu'r ddarpariaeth ADY os y bydd disgybl ar unrhyw 18ew ne unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol.
4. Mae barn rhieni yn bwysig iawn wrth adnabod ac mewn unrhyw asesiad o blentyn. Rhoddir pwyslais ar eu barn a cheisir eu cyd-weithrediad ym mhob achos.
5. Pan fo gofyn, mae barn asiantaethau eraill hefyd yn hanfodol, a cheisir gyd-weithrediad yr asiantaethau perthnasol wrth ganfod ac asesu disgyblion ag ADY.
6. O dderbyn disgyblion o unrhyw ysgol arall, fe geisir sicrhau bod gwybodaeth am y disgybl yn cyrraedd yr ysgol. Yn yr un modd, fe fydd yr ysgol hon hefyd yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth berthnasol i unrhyw ysgol lle bydd plentyn yn trosglwyddo iddi.

Plant ag Anghenion Corfforol


Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i groesawu pob plentyn, sicrhau eu diogelwch, eu galluogi i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol a chael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd a Chydraddoldeb i Bobl Anabl.

Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Mae'r Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd yn ddyletswydd newydd o fewn Deddf Gwahaniaethu (DDA) 2005, ble mae'n ofynnol i ysgolion gymryd camau rhagweithiol i sicrhau bod disgyblion, staff, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr a phobl eraill anabl sy'n defnyddio'r ysgol yn cael eu trin yn gyfartal.



Mae'r Ysgol wedi ei dynodi fel ysgol sydd yn cynnig mynediad llawn i ddisgyblion ac Anghenion Corfforol yn y dalgylch.. I'r perwyl hwnnw mae ystafell bwrpasol wedi ei hadeiladu fel estyniad i'r ysgol, mae'r holl ddrysau wedi eu lledu a hefyd mae lift i gludo disgyblion mewn cadair olwyn o un llawr i'r llall.



ABSENOLDEBAU

Mae gofyn statudol i ysgolion gadw cofnod manwl o bob absenoldeb plentyn. Gofynnwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.00 a.m. (trwy ebost, galwad ffon neu neges destun) os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol i sicrhau diogelwch pob plentyn sydd yn yn ein gofal, ac i ni fod yn gwybod pam fod plentyn yn absennol. Mae'n bosibl caniatáu hyd at ddeg diwrnod ysgol y flwyddyn i wyliau teuluol os oes gwir angen, er fod hyn, wrth gwrs yn amharu ar addysg eich plentyn. Mae'r ffurflenni gwneud cais am absenoldeb ar gael o'r ysgol.

Presenoldeb 2015 - 2016 = 96.4%

Absenoldeb wedi ei Awdurdodi = 3%

Absenoldeb heb ei Awdurdodi = 0.4%

YMDDYGIAD

Mae polisi Awdurdod Addysg Gwynedd ar ddisgyblaeth mewn ysgolion yn rheoli'r ffordd y byddwn yn ymateb i ymddygiad plant yn yr ysgol hon. Mae cwrteisi, parch, moesgarwch ac ystyriaeth o eraill, ynghyd â hunan-ddisgyblaeth yn agweddau pwysig o addysg plentyn ac nid ydym yn derbyn unrhyw fath o fwlio — mae polisi ar gael yn yr ysgol. Ble bo cam-ymddygiad yn digwydd, mae gan athro/athrawes (yn rhinwedd ei

swydd 'in loco parentis') gyfrifoldeb i gymryd y camrau priodol, fel rhiant cyfrifol. Gydag unrhyw achos o gam-ymddwyn bydd yr athrawes yn ymwneud gyntaf, yna'r pennaeth, ac wedyn, os bydd angen, byddwn yn cysylltu â'r rhieni. O sicrhau fod plant yn gwybod y math o ymddygiad a ddisgwylir ganddynt, credwn ein bod yn medru creu ethos hapus, saff i blant a staff, a thrwy hynny fedru cynnig gwell safon o addysg.

Dylid annog y plant:

- i feithrin hunan ddisgyblaeth a hunan barch
- i barchu ei gilydd, oedolion eraill yn yr ysgol a thu allan
- i barchu yr amgylchedd oddi fewn a thu allan i'r ysgol
- i fod yn oddefgar o'i gilydd, i faddau ac i gydnabod eu bai
- i gydymffurfio â rheolau'r ysgol a rhai cydnabyddedig cymdeithas wâr



GOFAL BUGEILIOL

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athrawes arbennig, ond ceisia'r staff cyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth. Mae Canllawiau'r Adran Addysg a rhai Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn glir bod gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae i warchod plant rhag cam-driniaeth. Mae'n gyfrifoldeb arnom ddatgan unrhyw bryder am blentyn i'r Swyddog Lles Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae Polisiau Grym Rhesymol, Ymddygiad, Amddiffyn Plant a Gwrth Fwlio yn yr ysgol.

CYSWLLT Â'R CARTREF

Mae ar bob ysgol angen cefnogaeth rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ddyddiol ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Byddwn yn gofyn i rieni a phlant, ynghyd â'r Pennaeth arwyddo **Cytundeb Cartref Ysgol** sydd yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau'r ysgol, y rhieni a'r plentyn i sicrhau yr addysg gorau posibl a phob chwarae teg a chyfle i lwyddo i bob plentyn.

Partneriaeth - Rôl yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn sicrhau fod:

- *Cyngor ac arweiniad ar ddatblygiad y plant yn cael ei ddarparu i rieni.
- *Datblygiad pob plentyn yn cael ei fonitro a'i drafod gyda'r rhieni yn ystod cyfarfodydd tymhorol ac mewn adroddiad ysgrifenedig blynyddol.
- *Rhieni yn cael gwybodaeth am unrhyw anhawsterau neu broblemau sy'n amlygu eu hunain, neu sy'n amharu ar ddatblygiad addysgol plentyn.
- *Ethos ac awyrgylch yr ysgol yn hyrwyddo gallu'r plant i gyrraedd eu potensial.
- *Gwybodaeth rheolaidd am weithgareddau ysgol yn cael eu rhannu gyda'r rhieni.
- *Côd ymddygiad ac amgylchedd gofalgwr wedi ei sefydlu.
- *Rhaglenni Astudio yn cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn addas i oedran, tueddiadau a gallu pob plentyn.

Partneriaeth - Rôl y Rhieni:

Gobeithiwn y bydd rhieni yn ein cefnogi drwy:



- *Ddeall anghenion eich plentyn tra yn yr ysgol
- *Fod yn barod i gyfathrebu gyda'r ysgol a mynychu nosweithiau rhieni'n rheolaidd.
- *Gymryd diddordeb yn y gwaith mae eich plentyn yn ei wneud a chefnogi ei astudiaethau.
- *Rannu pryderon am addysg, iechyd neu ymddygiad eu plentyn.
- *Gefnogi côd ymddygiad yr ysgol.

Efallai y bydd adegau pan fyddwch angen cysylltu â ni i drafod eich plentyn - 'rydym bob amser yn falch o dderbyn galwad ffôn neu lythyr i drefnu apwyntiad cyn gynted ag y bo modd. Fodd bynnag, os yw'r broblem yn un brys, cysylltwch â ni unrhyw adeg. Rydym yn rhannu holiadur i rieni'n flynyddol i dderbyn adborth mwy ffurfiol, yn ddi-enw os mai dyna ddymuniad y rhieni.



SUT Y GALLAF HELPU I HYBU ADDYSG FY MHLENTYN?

Gosodir rhai canllawiau yma ynglyn â'r math o bethau yn fras y gall rhiant ddysgu i blant i'w galluogi i roi cymorth ychwanegol i'w plentyn yn yr ysgol.

Meithrin

Dysgu lliwiau

Gafael mewn pensel yn gywir

Cyfri i 10

Gwneud lluniau

Lliwio yn daclus

Sgwrsio am ddigwyddiadau'r dydd

Adnabod rhai llythrennau a rhifau - canolbwyntio ar lythrennau bach

Dosbarth Derbyn

Adnabod llythrennau a rhifau

Ysgrifennu llythrennau a rhifau (llythrennau bach gyntaf)

Cyfrif at 20

Darllen geiriau syml a llyfrau

Cyfri fesul 10

Ysgrifennu geiriau a brawddegau syml

Ffurio llythrennau a rhifau yn gywir

Dysgu dyddiau'r wythnos

Blwyddyn 1 a 2

Gwybod tablau 2,3,5 a 10

Sgwrsio yn y Gymraeg a'r Saesneg

Adio a thynnu yn eu pen at 20

Dweud yr amser (o leiaf ar yr awr,

Ysgrifennu brawddegau

hanner awr wedi a chwarter wedi ac i)

Cyfri hyd at 100 a mwy

Dysgu misoedd y flwyddyn (Cymraeg)

Darllen storïau yn annibynnol

Dysgu dyddiau'r wythnos (Saesneg)

Blwyddyn 3 a 4

Gwybod tablau 2,3,4,5, 6 a 10 o leiaf

Dweud yr amser ar gloc analog a digidol

Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - llythyrau, storïau

Dysgu miseodd y flwyddyn (Saesneg)

Trafod a sgwrsio gan fynegi barn yn synhwyrol yn y ddwy iaith.

Blwyddyn 5 a 6

Gwybod tablau i gyd at 12 cyn gynted a phosibl

Ysgrifennu Cymraeg a Saesneg - storïau, llythryau, ayyb heb fawr o gangymeriadau sillafu - storïau - tua 2 ochr A4 mewn 45 munud-awr

Trafod a sgwrsio yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio iaith gywir geirfa dda a mynegi barn a safbwynt yn glir.

Gwaith Cartref

Bydd swmp y Gwaith Cartref yn cynyddu wrth i blentyn symud trwy'r ysgol. Gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant. Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod gan y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu.

O dro i dro fe all athrawes ofyn i blentyn orffen gwaith na chafodd ei gyflawni mewn amser rhesymol yn yr ysgol, wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn wneud y gwaith.

Mae llawer o fanteision i blant o gyflawni gwaith cartref:

1. Meithrin plant i ddatblygu yr arfer dda o ymarfer gweithio'n annibynnol.
2. Datblygu dyfal-barhad a bod yn hunan-ddisgybledig.
3. Ymarfer sgiliau sydd wedi eu dysgu yn y dosbarth.
4. Rhoi cyfle i rieni (ac oedolion eraill) fod yn rhan o waith y plant.
5. Paratoi'r plant i fynd i'r ysgol uwchradd.



Darllen Gartref

Rydym yn argyhoeddiedig fod darllen yn rhan hynod bwysig yn natblygiad addysgol

plentyn. Oherwydd hyn mae gennym gynllun 'Darllen Gartref' lle y gofynnir i rieni ddarllen gyda'r plant yn rheolaidd. Wrth gwrs, cynllun gwirfoddol yw er lles eich plentyn chwi, ac nid oes gorfodaeth arnoch i'w ddilyn.

I hybu diddordeb mewn darllen byddwn yn dosbarthu catalogau Clwb Llyfrau yn rheolaidd. Nid oes unrhyw bwysau arnoch i brynu.



CYD-ADDOLI

Mae'r ysgol hon yn ysgol gynradd wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r Addysg Grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

Mae cyd-addoliad yn digwydd yn ddyddiol yn yr ysgol fel a ganlyn:

Dydd Llun	9.00 - 9.15	Dau gyfnod allweddol ar wahan
Dydd Mawrth	9.00 - 9.20	Ysgol Gyfan: cyfrifoldeb athrawon yn cylchdroi
Dydd Mercher	9.00 - 9.20	Dosbarthiadau
Dydd Iau	9.00 - 9.20	Dau gyfnod allweddol ar wahan
Dydd Gwener	9.00 - 9.20	Ysgol Gyfan: cyfrifoldeb yr athrawon yn eu tro

Bydd y gwasanaethau hyn yn Gristnogol yn bennaf, ond tynnir sylw at gredoau eraill o bryd i'w gilydd.

Bydd y Tad Dylan Williams yn annerch y plant ddwywaith y mis, a bydd y Parchedig Robert Townsend sydd yn Swyddog Addysg hefo'r Esgobaeth fefyd yn cynnal gwasanaethau achlysurol. Ceir ymweliadau hefyd gan elusennau a bugeiliaid eraill yn yr ardal.

Bydd pob dosbarth yn ei dro yn cynnal gwasanaeth ysgol gyfan.



Gellir gwneud trefniadau ar gyfer plant nad yw eu rhieni am iddynt fynychu'r gwasanaethau crefyddol neu astudiaethau cyffelyb.

CYSWLLT Â'R GYMUNED

Mae'n bwysig fod yr ysgol yn chwarae rhan amlwg ym mywyd y gymuned, ac i'r gymuned hithau chwarae ran amlwg ym mywyd yr ysgol. Dylai'r ysgol a'r gymuned gyd-ymdreiddio. Dylid gwneud yn fawr o'r gynulleidfa barod a gynigir gan y gymuned



leol, a dylai'r plant weld fod iddynt hwythau eu lle yn y gymdeithas gyflawn.

Rydym yn credu bod yr ysgol yn rhan annatod o'r gymuned ac yn helpu'r plant i feithrin parch at ei thraddodiadau a'i phobl.

Dylid ystyried sut mae gweithredu'r amcanion cymunedol drwy

- feithrin plant i adnabod a pharchu eu treftadaeth leol.
- annog arbenigedd o'r tu allan i sicrhau addysg eang a chytbwys, un sy'n ddiddorol a chydlynus, yn integredig a gwahaniaethol.

Ddatblygu'r berthynas glos a chartrefol sy'n bodoli mewn cymdeithas wledig a manteisio ar y cyfle i oedrannau cymysg gyd-weithio â'u gilydd.

- Cysylltu'r plant a'u bro a'r gymdeithas gan mai'r fro yw libart addysg y plentyn, a'r bobl cyswllt addysgol yw'r athrawon, y rhieni, yr ymwelwyr a'r brodorion.

Byddwn yn cyflawni'r uchod drwy ddarparu gwasanaethau Diolchgarwch a chyngherddau Nadolig, drwy wneud gwaith dyngarol er mwyn helpu pobl a sefydliadau sydd mewn angen. Byddwn yn meithrin cyswllt diwylliannol drwy gefnogi eisteddfodau lleol, creu ymwybyddiaeth o'r traddodiadau sydd yn berthnasol i'r ardal gymunedol. Gwahoddir arbenigwyr i arddangos hen gelfi ac adrodd hanesion. Mae ymweld â mannau o bwys yn bwysig iawn hefyd. Rydym yn defnyddio talentau lleol i gryfhau gweithgareddau addysgol megis gwau a chrosio, fel bo'r doniau yn cael eu gwerthfawrogi a bod dilyniant yn y gymuned i'r oesoedd a ddêl. Byddwn hefyd yn defnyddio yr adnoddau parod sydd ar gael i greu ymwybyddiaeth o fenter a busnes a dealltwriaeth o reoli ffatrioedd, ffermydd, siopau ac yn y blaen. Bydd hyn yn fodd i'r plant a'r athrawon greu cyswllt buddiol ag oedolion ac arbenigwyr yn eu meysydd.

Rhaid meithrin y cysylltiadau uniongyrchol ag unigolion er mwyn ehangu a chyfoethogi agweddau ar y cwricwlwm drwy wahodd awduron, crefftwyr, rhieni ac arbenigwyr i'r ysgol.

CYMDEITHAS RIENI AC ATHRAWON

Mae holl lywodraethwyr a rhieni plant yr ysgol yn cael eu cyfri'n aelodau o'r Gymdeithas Rieni, heb unrhyw dâl aelodaeth! Yn yr un modd, unrhyw 'gyfaill' sy'n dangos diddordeb yn yr ysgol a'i gweithgareddau. Caiff y swyddogion a'r pwyllgor eu hethol yn flynyddol.

Nod y gymdeithas yw codi arian i brynu adnoddau fydd yn datblygu,



atgyfnerthu a hyrwyddo addysg y plant, a hynny drwy gynnal nosweithiau cymdeithasol, a dyfnhau'r berthynas sy'n bodoli rhwng staff, rhieni a phawb arall sy'n ymwneud â'r ysgol

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gymdeithas am eu hymroddiad a'u haelioni yn ystod y flwyddyn.


ASESU / ADRODD I RIENI

Mae asesu parhaus wedi bod yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon cydwybodol erioed. Mae hyn yn sail i baratoi gwaith addas ar gyfer eich plentyn.

Bydd plant Meithrin / Derbyn yn cael eu hasesu yn ôl canllawiau 'Proffil Asesu Plentyn' yn ystod yr hanner tymor cyntaf. Bydd y rhieni yn cael gwahoddiad i gyfarfod efo'r athrawes i drafod yr adroddiad ysgrifenedig.

Ar ddiwedd Tymor yr Haf, byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eich plentyn. Bydd yr adroddiad yn cynnwys :

- Sylwadau ar ddatblygiad eich plentyn o fewn y Meysydd Dysgu neu bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- Lefelau cyrhaeddiad eich plentyn yn y pynciau craidd (Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) ar ddiwedd Bl6.
- Cymariaethau rhwng canlyniadau eich plentyn (Bl2 a Bl6) gyda chanlyniadau cyfartalog cenedlaethol.
- Sylwadau gan yr athrawes ddosbarth ar agwedd, ymddygiad a datblygiad cyffredinol
- Cofnod o bresenoldeb y plentyn yn ystod y flwyddyn
- Argymhellion i'r plentyn a'r rhieni.
- Dyddiad ac amser i drafod yr adroddiad
- Dyddiad agor yr ysgol ym mis Medi.



Caiff copi o'r adroddiad ei gadw yn yr ysgol.

Cynhelir Nosweithiau Rhieni ddwy waith y flwyddyn. Rhydd hyn gyfle i rieni drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawes ddosbarth.

Cwblheir asesiadau athrawon ar ddiwedd pob blwyddyn addysgol. Yn ôl rhaglen y

Cwricwlwm Cenedlaethol bydd disgyblion B2 yn cael asesiad mwy ffurfiol ar ddiwedd y Cyfnod sylfaen a'r un modd i ddisgyblion B6 ar ddiwedd CA2. Bydd adroddiad llawn o lefel o gyrhaeddiad disgyblion yn B2 a B6 yn y pynciau craidd yn cael ei baratoi ar gyfer rhieni erbyn diwedd y flwyddyn addysgol.

CHWARAEON

Ar hyn o bryd, mae holl blant CA2 yr ysgol yn nofio/neu gael gwersi gymnasteg a chwaraeon yn y Ganolfan hamdden am y tri tymor. Bydd hyn yn digwydd yn wythnosol ar brynhawn Iau. Disgwylir i'r plant fynd i nofio'n rheolaidd fel rhan o'r Cwricwlwm Addysg Gorfforol. Os na fedr plentyn fynd i nofio neu i'r gampfa oherwydd annwyd a.y.y.b. disgwylir y cwrteisi o lythyr neu alwad ffôn gan riant **BOB TRO** i egluro'r sefyllfa. Gofynnwn am gyfraniad o £2.00 y plentyn tuag at gostau'r bws.

Rhown gryn werth ar weithgareddau corfforol a'u cyfraniad i ddatblygiad corfforol, addysgol, cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn. Ceisiwn ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau i ymateb i ddiddordebau pob plentyn. Ein nod yw dysgu'r plentyn sut i gyd-chwarae fel rhan o dîm, grŵp, pâr, ac fel unigolyn, hybu gweithgarwch corfforol a ffyrdd iach o fyw, meithrin agweddau cadarnhaol - parchu chwarae teg, cystadlu'n onest, dygymod â llwyddiant a methiant, sicrhau arferion diogel drwy ymateb i gyfarwyddiadau, cydnabod a dilyn rheolau, defnyddio yn ddiogel a.y.y.b.

Byddwn yn chwarae gemau cyfeillgar a chystadleuol gan gynnwys pêl droed, criced, rygbi'r ddraig, athletau, rownderi a.y.y.b. a chymryd rhan mewn gemau tîm lleol yn y dalgylch.



DOGFENNAU

Mae gennych hawl os y dymunwch, i wneud cais i'r ysgol i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis Cylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig, Polisiau yr Awdurdod Addysg, Polisiau a Nodau Cwricwlaidd y Corff Llywodraethu, adroddiadau Arolygwyr Ei Mawrhydi ar yr ysgol, meysydd llafur a chynlluniau gwaith ac adroddiad blynyddol i rieni.

GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL

Gobeithia'r ysgol sicrhau cyd-weithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i holl ddisgyblion yr ysgol sydd ym marn y Pennaeth yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau a gofynnir i rieni/gwarcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref. Mae'r athrawon yn falch o roi eu hamser yn wirfoddol i'r gweithgareddau hyn. Byddwn yn trefnu ymweliadau, gwaith maes megis astudiaethau daearyddol ym Mhlas Tan y Bwlch, gwasanaethau yn y capel a'r eglwys lleol, gwersi offerynnol a.y.y.b.

GWISG YSGOL

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol, ond nid oes gorfodaeth ar blant i'w gwisgo. Er hyn, teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi.

Y wisg ysgol:

- Crys polo gwyn / gwyrdd
- Crys chwys gwyrdd gyda logo'r ysgol arni
- Sgert/trowsus llwyd neu ddu i ferched
- Trowsus llwyd neu ddu i fechgyn



Mae'r wisg ysgol ar gael yn Llyn Sports, Pwllheli. Mae hefyd Hwdi yr ysgol ar gael ar gyfer diwrnodau chwaraeon.

Gofynnwn yn garedig i chwi roi enw eich plentyn yn glir ar bob dilledyn, i arbed amser ac i sicrhau fod eich plentyn yn derbyn unrhyw eitemau coll.

LLEFRITH A FFRWYTHAU

Ar hyn o bryd mae llefrith ar gael am ddim i blant Blwyddyn Meithrin hyd at Blwyddyn 2.

Annogwn bob plentyn i ddod a ffrwyth gyda nhw i'r ysgol ar gyfer amser egwyl bore. Bydd athrawon y dosbarth Meithrin a Derbyn yn sicrhau fod y plant ieuengaf yn cael cyfle i fwyta eu ffrwythau yn y dosbarth cyn mynd allan i chwarae. Ni chaniateir unrhyw fath o fyrbrydau eraill megis cnau a bariau grawnfwyd,



Bydd pob plentyn hefyd yn derbyn potel ddŵr bersonol. Byddwn yn annog y plant i yfed yn aml yn ystod y dydd. Mae ffynnon ddwr yng nghyntedd yr ysgol.



CINIO

Mae cinio ysgol ar gael i'r holl blant. Mae'r bwyd, sef cinio a phwddin yn cael ei baratoi a'i goginio yng nghegin yr ysgol. Pris cinio ysgol yw £2.05 y dydd, (£10.25 yr wythnos) i'w dalu'n wythnosol ar **ddydd Llun neu ddydd Gwener**. Os gwelwch yn dda, rhwch arian cinio eich plentyn (yr arian cywir os yn bosibl), neu siec wedi ei gwneud allan i Cyngor Gwynedd, yn yr amlen bwrpasol gyda'r enw arno'n glir, i'r plentyn ei roi i Anti Lona. Ni chaniateir dyled sy'n fwy na phythefnos.

Mae cinio am ddim i'w gael i blant sydd a'u rhieni'n derbyn Cymorth Incwm. I wneud cais, gellir cael ffurflen o'r ysgol.



TYWYDD GARW

Os bydd eira mawr a'r ysgol yn gorfod cau byddwn yn cysylltu a chwi trwy neges destun tua 8.15. Byddwn yn ymdrechu i gysylltu â Radio Cymru, gwefan Cyngor Gwynedd a Radio Champion i gyhoeddi os yw'r ysgol ar gau. Os daw'n eira trwm yn ystod y dydd, byddwn yn cysylltu â chwi, neu yn sicrhau fod rhywun gartref cyn gadael unrhyw blentyn. Mewn argyfwng, sicrhawn fod plentyn yn cael ei adael gyda chymydog neu ffrind cyfrifol.

IECHYD A DIOGELWCH

Mae gennym nifer o bolisiau manwl yn ymwneud â Iechyd, Lles a Diogelwch ac rydym yn dilyn canllawiau cydnabyddiedig Cyngor Gwynedd gan gynnwys cwblhau Asesiadau Risg. Mae system i ganiatau mynediad i ymwelwyr. Cynhelir dril tân yn dymhorol. Mae Panel Adeiladau'r Llywodraethwyr a'n Swyddog Adeiladau yn gwneud arolwg rheolaidd o'r adeiladau o ran cyflwr a diogelwch.

Os caiff plentyn ddamwain, ein blaenoriaeth cyntaf yw delio gyda'r argyfwng yna cysylltu gyda'r rhiant er mwyn trefnu i'r plentyn fynd gartref neu dderbyn gofal meddygol pellach. Pe bai damwain neu salwch difrifol, polisi'r ysgol yw cael cyngor meddygol ar fyrder. Ym mhob argyfwng, byddwn yn gwneud pob dim i geisio cysylltu â rhiant, ond os nad yw'n bosibl, byddwn yn gweithredu yn ôl cyngor meddygol. Mae gan nifer o staff gymhwyster Cymorth Cyntaf.

MODDION



Mewn achosion 'tymor byr' gall yr athrawon roi moddion os yw'r rhieni wedi arwyddo ffurflen bwrpasol. Yn y tymor hir, gallwn hefyd wneud ar gais ysgrifenedig gan feddyg. Yn arferol, ni fydd plentyn sydd angen moddion yn ddigon iach i fod yn yr ysgol. Mae angen cadw plentyn adref am 24 awr os yw wedi bod yn taflu i fyny neu wedi cael diahorrea.

Ni roddir unrhyw foddion i blentyn heb ffurflen bwrpasol neu lythyr gan feddyg.

MEDDYGOL



Mae profion golwg a chlyw yn cael eu cynnal gan nyrs yr ysgol. Bydd y deintydd ysgol yn ymweld yn rheolaidd i archwilio dannedd y plant. Yn dilyn archwiliad, pe bai eich plentyn angen triniaeth, cewch ddewis defnyddio deintydd yr ysgol neu un personol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg, y Seicolegydd Addysg, y Gwasanaethau Meddygol a Chymdeithasol. 'Rydym i gyd yn cyd-weithio er lles y plant.


Os oes gan blentyn broblem penodol, byddwn yn creu Cynllun Meddygol Unigol i sicrhau dealltwriaeth o bob ochr - cysylltwch â ni os tybiwch fod eich plentyn angen hyn.

YSGOL BOTWNNOG

Mae gennym gyswllt da gyda'r Ysgol Uwchradd leol, sef Ysgol y Botwnnog a bydd y plant hynaf yn ymweld â'r ysgol nifer o weithiau mewn blwyddyn. Ar ddiwedd Bl6, bydd y plant yn cael cyfle i gael ymweliad mwy ffurfiol i'w paratoi at fis Medi. Bydd cyfle i rieni gyfarfod â rhai aelodau o'r staff hefyd. Y nod yw hyrwyddo'r trosglwyddiad i bawb. Ar ddechrau Bl6, cewch wybodaeth am Ysgol Botwnnog a sut i wneud cais i'r Awdurdod Addysg pe baech eisiau i'ch plentyn fynychu ysgol uwchradd wahanol.

CYNGOR YSGOL

Etholir Cyngor Ysgol yn flynyddol, a bydd y cyngor yn cyfarfod ddwy waith y tymor. Gosodir llun o aelodau'r Cyngor ar wal yn y neuadd fel bod pob plentyn yn gwybod pwy yw eu cynrychiolydd ar y Cyngor. Mae 'bocs syniadau' yn y dosbarthiadau, ble mae pob plentyn yn cael cynnig syniadau a lleisio eu barn. Agorir y bocs gan aelodau'r Cyngor yn ystod y cyfarfod a bydd y syniadau yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod. Darperir adroddiad o'r cyfarfod a gwneir restr o'r pynciau sydd angen eu



trafod gyda'r Pennaeth. Y gobaith yw y bydd y syniadau yn rhai ymarferol ac adeiladol, a fydd yn gallu cael eu bwydo i Gynllun Datblygu'r Ysgol.

TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Leol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd angen. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ysgrifenedig a ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth.

DEFNYDDIO'R GYMRAEG A'R SAESNEG

Credwn bod gan holl blant yr ysgol hon hawl i dyfu yn ddinasyddion dwyieithog. Parchwn famiaith pob disgybl, a cheisiwn eu hannog i ddatblygu eu hyfredded yn eu hail iaith, boed honno yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae nodau ieithyddol yr ysgol hon yn unol â nodau Polisi Dwyieithog yr Awdurdod Addysg.

Gweithredir y polisi drwy:

- sicrhau yn y dosbarth meithrin / derbyn, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.
- adeiladu ym mlyneddau 1 a 2 ar y sylfaen a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwr Cymraeg

ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

- yng Nghyfnod Allweddol 2, cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd a hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Y Gymraeg yw iaith gyfathrebol yr ysgol hon. Fe'i defnyddir:

- yng ngweinyddiad dydd i ddydd yr ysgol
- fel iaith achlysurol tu allan i sesiynau dysgu
- fel iaith gwasanaethau boreol

Y Gymraeg yw prif iaith cyfrwng y dysgu, yn gyflwyno ac yn gofnodi ar draws y cwricwlwm.

Siarter Iaith Gymraeg Gwynedd



Rydym yn falch ein bod wedi ymrwymo i'r Siarter Iaith ac yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau fod pob plentyn yn yr ysgol yn ymwybodol o'r weledigaeth sef ein bod yn 'annog plant i ddatblygu synnwyr o berthyn ac i ymfalchio yn eu Cymreictod, eu diwylliant, iaith a thraddodiadau Cymru.' Hyderwn y byddwch chithau fel rhieni yn awyddus i gefnogi'r weledigaeth ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol

Cyflwynir y Saesneg yn raddol yn y Cyfnod Sylfaen ac yna cynyddir ei ddefnydd yn gyson trwy Gyfnod Allweddol 2 i gyflwyno a chofnodi, fel y gall pob plentyn ei ddefnyddio'n hyderus i ymwneud ag amrywiol feysydd y cwricwlwm erbyn Bl 6.

TREFNIADAU DERBYN

Dylai unrhyw riant sy'n dymuno i'w plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol gysylltu'n uniongyrchol â'r Adran Addysg yng Nghaernarfon, sef gyda Owain Dewi Hughes, Swyddog Gwybodaeth, Addysg, Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd. Y rhif ffôn yw 01286 679 904.

CRYNODEB O'R POLISI YNGLŶN Â CHODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL

Penderfynwyd cadw at benderfyniadau Awdurdod Addysg Gwynedd.

Dylid codi tâl llawn ar rieni disgyblion am yr eitemau canlynol:

- Difrod i werslyfrau neu offer addysgiadol sy'n deillio o gamymddygiad y disgybl.
- Pob gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol oni bai eu bod yn angenrheidiol i ofynion y Cwricwlwm neu ofynion statudol Addysg Grefyddol.
- Costau bwyd a llety ar gyfer gweithgareddau preswyl a drefnir gan yr ysgol neu'r Awdurdod Addysg ac eithrio disgyblion y mae eu rhieni yn derbyn Cymorth Incwm neu Gredyd Teulu. Disgwylir yn ôl yr arfer, os oes modd, i rieni dalu am unrhyw weithgaredd all-gyrsiol a drefnir gan yr ysgol.

Codi'r tâl yn rhanol am:

- Wersi offerynnol cerdd.
- Teithio i wersi nofio.
- Difrod i ffenestri, drysau neu ffitiadau adeiladau ysgol sy'n deillio o gamymddygiad disgybl.

Ni ddylid codi tâl am:

- Bwyd a llety disgyblion sy'n mynychu Ysgolion Preswyl Arbennig oherwydd fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

Gofynnir am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni gyda gweithgareddau dewisol sy'n digwydd o bryd i'w gilydd yn ystod oriau ysgol. Hysbysir y rhieni mai gwirfoddol yw unrhyw gyfraniadau ond cedwir yr hawl i beidio parhau gydag unrhyw drefniadau os nad oes digon o gyfraniadau wedi dod i law.

Y CORFF LLYWODRAETHU

Mae gennym ddeuddeg o lywodraethwyr. Caiff dau eu hapwyntio gan yr Awdurdod Addysg Lleol ac un gan y Cyngor Cymuned. Mae tri rhiant-lywodraethwr sy'n cael eu hethol trwy bleidlais gan y rhieni, mae un athrawes wedi ei hethol gan staff yr ysgol, ac un staff ategol wedi ei hethol gan weddill y staff. Yn ychwanegol i hyn, bydd y Corff Llywodraethol yn cyfethol dau aelod o'r gymuned lleol ac mae dau aelod yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru.. Mae'r aelodau yn gweithredu am bedair mlynedd, yna rhaid iddynt gael eu hail-apwyntio neu ail-ethol. Mae'r Pennaeth yn aelod yn rhinwedd ei swydd. Mae gan Lywodraethwyr bwerau cyfreithiol a chyfrifoldebau. Ni allant weithredu fel unigolion - cydweithio yw'r nod. Mae gan bob Llywodraethwr gyswllt

gydag un neu fwy o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae rhestr gyflawn isod, yn dangos eu categori perthnasol, a'r dyddiad y daw eu cyfnod i ben.



Aelodau'r Corff Llywodraethu

Enw	Categori	Cyfnod yn Diweddu
Mrs Ruth ab Ieuan	Aelod Cyfetholedig	2019
Mrs Caren Jones	Awdurdod Addysg	2017
Y Cyng. Gweno Glyn	Cyngor Gwynedd	2016
Mrs Carys Williams	Rhieni	2016
Mrs Carys Evans	Cyngor Cymuned	2016
Mrs Nia Parry	Rhieni	2017
Mrs Gweno Roberts	Rhieni	2019
Mrs Bethan Rhys	Athrawon	2019
Mr Euros Davies	Pennaeth	2005 -
Ms Theresa Evans	Yr Eglwys yng Nghymru	2017
Mrs Sharon Glyn	Staff Ategol	2016
Mrs Nerys Griffiths	Clerc	

Gellir cysylltu gyda'r cadeirydd drwy'r prifathro yn yr ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae is-bwyllgorau Cyllid, Adeiladau, Personel, Apêl, Rheoli Perfformiad, Disgyblu a.y.y.b. Mae rôl Llywodraethwyr yn cynyddu ac yn mynd yn fwy cymhleth yn flynyddol, felly byddant yn mynychu cyrsiau perthnasol. Mae'r Corff Llywodraethu yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Rhieni yn ystod mis Hydref neu Dachwedd ac yn cynnal cyfarfod i'w drafod.



RHEOLAU YSGOL PONT Y GOF



1. Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod eich plentyn yn yr ysgol erbyn 9.00 y.b. - mae prydlondeb yn arferiad da i'w feithrin. Dymunwn eich atgoffa nad oes gan athrawon gyfrifoldeb am y plant yn swyddogol tan 8:50 a.m. ac na ddylai plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.50. Fe fyddant yn cael eu cofnodi fel "hwyr" os byddant yn cyrraedd ar ôl 9.05a.m. a bydd gofyn i riant arwyddo a rhoi rheswm dros fod yn hwyr. Cedwir y

cofnod mewn ffeil yn yr ysgol.

2. Gofynwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.00 a.m. os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol - trwy ebost, alwad ffon neu neges destun.
3. Bydd yr ysgol yn cau am 3.15 i ddisgyblion i Cyfnod Sylfaen a 3.30 i ddisgyblion CA2. Ni fyddwn yn gollwng yr un plentyn heb sicrhau fod rhywun i'w gyrchu adref, neu bod trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw gyda'r rhieni. Pe digwydd i chwi fod yn hwyr, ac yn methu cyfarfod eich plentyn am 3.30 y.h. gofynwn i chi ffonio'r ysgol er mwyn i ni fedru gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch eich plentyn. Gofynnir i rieni gasglu disgyblion o'r giat a'u goruchwyllo yn dynn y tu allan o'r ysgol os yn eu codi.
4. Os bwriedwch i rywun gwahanol ddod i nôl eich plentyn, mae angen i chi adael i ni wybod trwy alwad ffôn neu nodyn. Ni allwn ddibynnu ar air plentyn ifanc, a gall camddealltwriaeth fod yn beryglus, gwastraffu amser ac achosi pryder i bawb.
5. Disgwylir i bob plentyn feddu gwisg addas ac esgidiau addas ar gyfer Addysg Gorfforol, sef siorts, crys-T a threinars. Sicrhewch bod enw'r plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda.
6. Ni chaniateir gwisgo clust-dlysau yn yr ysgol. Mae perygl mawr i'r plant gael damwain wrth chwarae ar y buarth ac mewn gwahanol wersi ble mae symud yn ran ohonynt. Diogelwch y plant sy'n bwysig, ac o ddilyn y llwybr yma ceisiwn ymgynghraedd at lefel uchel o ddiogelwch.
7. Ni ddylai'r plant ddod â theganau nac eiddo gwerthfawr, arian poced a.y.y.b. i'r ysgol gan nad oes gennym adnoddau i'w gwarchod ac na allwn fod yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd pe cânt eu malu neu eu colli.
8. Ni chaiff plant ddod â ffonau symudol i'r ysgol. Cyfrifoldeb y Pennaeth a'r athrawon yw cysylltu â rhieni pan mae gwir angen gwneud hynny.
9. Ni chaiff y plant ddod â siocled, fferins, gwm cnoi na diodydd sy'n cynnwys siwgr i'r ysgol.
10. Dim rhedeg yn y dosbarthiadau, nac o fewn unrhyw ran o adeilad yr ysgol

11. Bws yr Ysgol – Mae bws yn cludo plant sydd yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol yn rhad ac am ddim. Os ydych yn dymuno gwneud cais am le ar y bws cysylltwch a'r ysgol. Ni ellir caniatáu lle ar fws yr ysgol i blant ychwanegol ar unrhyw achlysur e.e. parti penblwydd, ymweld a thy ffrind. Os ydych yn byw llai na 2 filltir o'r Ysgol gellir gwneud cais am le ar y bws fel rhan o'r 'Cynllun Seddau Gweigion'. Cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau bod plentyn yn ymddwyn ar fws yr ysgol. Mae polisi pwrpasol yn yr ysgol a gellir gweld copi ohono trwy gysylltu a'r Pennaeth.

Mae gennym bolisi DIM YSMYGU



Amddiffyn Plant:



Canllawiau Amddiffyn Plant Ysgol Pont y Gof

Nodyn i Rieni

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol bod gan ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn golygu:-

- y bydd gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant;
- y dylai'r ysgol wneud rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o'i pholisi amddiffyn plant, efallai drwy ei gynnwys ym mhrosbectws yr ysgol, a bod hyn yn golygu y bydd efallai angen cyfeirio eu plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol os ydynt yn credu bod y plentyn neu blant eraill mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol;

- y dylai'r ysgol geisio gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn ddiduedd os yw eu plentyn yn cael ei gyfeirio neu wedi cael ei gyfeirio;
- y dylai'r ysgol helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall os cyfeirir y plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, yna gwneir hynny er lles gorau'r plentyn ac y bydd yr ysgol yn cyfrannu at unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant neu ymchwiliad yr heddlu o ran lles a chynnydd addysgol eu plentyn;
- y bydd yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni / gofalwyr yn gyson ynghylch lles a chynnydd addysgol y plentyn.

Ar 1 Medi 2006, daeth adran 175 o *Ddeddf Addysg 2002* i rym. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach i fod â threfniadau yn eu lle i sicrhau eu bod yn diogelu plant a bod y trefniadau hyn yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol fodloni gofynion tebyg o dan safonau a gyflwynwyd o dan adran 157 o *Ddeddf Addysg 2002*.

Os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon ynghylch plentyn, byddant fel arfer yn ceisio trafod hyn â'r teulu a, lle bo hynny'n bosibl, yn gofyn am eu caniatâd i gyfeirio'r plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ond lle na fyddai trafodaeth a chytundeb o'r fath yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o ddioddef niwed sylweddol. Bydd y cyngor hwnnw'n cael ei roi gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol lleol mewn ymgynghoriad, lle bo'n briodol, â'r heddlu.

Dylai'r person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol (y pennaeth) gael gwybod yn iawn gan yr asiantaethau statudol hyn pryd, sut a phwy fydd yn hysbysu'r rhieni neu'r gofalwyr y bydd eu plentyn efallai'n cael ei gyfeirio. Dylent hefyd ofyn am gyngor ynghylch a ddylid rhoi gwybod i'r plentyn am y broses neu beidio.

Fel rhiant neu ofalwr, efallai y byddwch yn teimlo'n unig ar brydiau ond fel arfer mae rhywun ar gael i siarad â nhw. Nid yw gofalu am blant bob amser yn rhwydd, ac os ydych yn ei chael hi'n anodd ymdopi efallai y bydd angen i chi ofyn am help a chymorth i amddiffyn eich plentyn.

Efallai y bydd y canlynol yn ddefnyddiol:-

- gwnewch amser i siarad â'ch plentyn a gwrando arno/arni;
- dewch i adnabod ffrindiau ac arferion beunyddiol eich plentyn;
- byddwch yn sensitif i unrhyw newid yn ei ymddygiad;
- dysgwch eich plentyn i deimlo'n hyderus i wrthod gwneud unrhyw beth os nad yw'n teimlo'n iawn;
- byddwch yn ymwybodol o sut mae'ch plentyn yn defnyddio'r rhyngrwyd a'i ffôn symudol, fel nad yw'n rhoi ei hun mewn perygl.

Rhifau Ffôn Pwysig:

Y Pennaeth - Mr Euros Davies - 01758 730318

Dirprwy - Mrs Bethan Rhys - 01758 730318

Llywodraethwraig dynodedig - Ruth Ab Ieuan - 01758 740224

Tîm amddiffyn plant - 01758 704428

Swyddog Llêl - Carys Jones - 01758 704043

Swyddog Diogelu'r Cyngor - Mrs Ffion Rhisiart - 07917266182




y Cwricwlwm Cudd

Ar wahan i arbenigedd unigol y staff addysgu, dyma'r peth sy'n bennaf gyfrifol am roi i bob ysgol ei chymeriad unigol ac unigryw. Dyma'r rhan o'r cwricwlwm na ellir ei osod o dan benawdau - yr athroniaeth y tu cefn i'r dysgu ac ysgogiadau'r staff, ynghyd â'r ffordd y mae polisïau'r ysgol yn ystyried natur y gymdeithas a wasanaethir ganddi - dyna sy'n rhoi i ysgol ei chymeriad ei hun.

Yma yn Ysgol Pont y Gof, ceisiwn wneud nifer o bethau nad ydynt yn rhan o'r cwricwlwm ffurfiol, pethau sy'n bwysig mewn bywyd yn ein meddwl ni. Credwn ein bod yma i roi gwasanaeth mwy na'r amcanion academaidd ar ben eu hunain (er bod y pwysau ac amser yr ysgol yn gwneud hyn yn fwyfwy anodd). Credwn y dylai pob plentyn allu uniaethu ei hun â'i ysgol - ac y dylai fedru gwneud hynny, nid yn unig drwy'r wisg ysgol sydd amdano, ond drwy agwedd yr ysgol at y byd mawr y tu allan. I'r diben hwn ceisiwn feithrin cysylltiadau a'n cymuned, ac ysgolion eraill y dalgylch, yr henoed a'r anabl.

Yr ydym yn ymwybodol iawn fod ein plant yn gorfod wynebu ansicrwydd mawr yn y byd sydd ohoni, hyd yn oed yn eu bywydau ieuanc hwy ambell waith, ac o'r herwydd teimlwn ei bod yn holl bwysig i ddysgu'n plant i feddwl drostynt eu hunain ac i ninnau gynnig awyrgylch gartrefol a chariadus iddynt.

Rhaid hefyd gwneud y plant yn ymwybodol o'u "Cymreictod" (os ydynt yn Gymry). Os nad ydynt yn Gymry, dylid eu gwneud yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y gymdeithas Gymreig a'r diwylliant Cymraeg i'w gynnig iddynt o ran cyfoethogi eu profiadau. Gan anelu at y pethau hyn mae'r ysgol hon yn ceisio creu awyrgylch sy'n adlewyrchu balchder yn ei chymuned.



CANLYNIADAU ASESIADAU HAF 2015

Gweler atodiad 1 am ganlyniadau'r ysgol yn 2015 ynghyd a chymhariaeth gyda Chymru:

Atodiad 1

Cyfnod Sylfaen

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2015 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALI a Chymru


YSGOL PONT Y GOF
Gwynedd

Rhif yr ALI/Ysgol:661/3004


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2015 gyda meincnodi Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyledig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015
Saesneg	92	86	87	100	94	93	94	90	90
Cymraeg	92	87	87	100	94	93	94	90	90
Mathemateg	100	88	88	100	95	92	100	91	90
Gwyddoniaeth	100	91	90	100	96	93	100	93	91
DPC	92	85	85	100	94	91	94	89	88



Perfformiad yr ysgol dros amser (2011 - 2015)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol a chanran debyg o ddysgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim

Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colothau yn cyfeirio at:

- Chwarter 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
- Chwarter 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwarter 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwarter 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Gnlp Prydau Ysgol am Ddim

Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwarter 4	Chwarter Isaf	Chwarter 3	Canolrif	Chwarter 2	Chwarter Uchaf	Chwarter 1
Saesneg		92	94	97		100	
Cymraeg		88	94	97		100	
Mathemateg		93		97		100	100
Gwyddoniaeth		94		100		100	100
DPC		91	94	96		100	

Mae'r meincnodau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfartaledd tair-mllynedd data Prydau Ysgol am Ddim.

Nodiadau:

- Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyfraddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
- DPC = Dangosydd Pynclau Craidd. I siochau DPC, mae'n rhaid i ddysgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyledig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
- Os nad oedd unrhyw ddysgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn tynnu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Cyfnod Allweddol 2

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2015 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALI a Chymru


YSGOL PONT Y GOF
Gwynedd

Rhif yr ALI/Ysgol:661/3004

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2015 gyda meincnodi

Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deiliant disgwylidig, o leiaf (Deiliant 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015	Ysgol 2015	ALI 2015	Cymru 2015
PSD	100	93	92	86	98	97	94	96	95
LCW	91	83	88	86	94	95	89	88	91
LCE	0	50	84	0	92	92	0	78	88
MDT	100	88	87	86	93	92	94	90	90
DCS	91	82	83	86	92	91	89	87	87



Perfformiad yr ysgol dros amser (2011 - 2015)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol a chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau colofnau yn cyfeirio at:

- Chwarter 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
- Chwarter 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
- Chwarter 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
- Chwarter 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Gnlp Prydau Ysgol am Ddim

Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwarter 4	Chwarter 3	Canolrif	Chwarter 2	Chwarter 1
PSD	94	97	100	100	100
LCW	87	89	96	100	100
LCE	91	96	100	100	100
MDT	91	94	96	100	100
DCS	88	89	94	100	100

Mae'r meincnodau wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio cyfartaledd tair-mlunedd data Prydau Ysgol am Ddim.

Nodladdau:

- - Dim data hanesyddol ar gael
- Meysydd Dysgu: PSD - Datblygiad personol a chymdelthasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; LCW - Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE - Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT - Datblygiad mathemategol; DCS - Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, mae i ddisgybl gymaedd y deiliant disgwylidig (Deiliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT i'w dau a nall i'w LCW neu LCE.
- Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos twich ar gyfer y flwyddyn honno.

